



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru Amcangyfrif Ariannol

2018-19

Cyflwynwyd i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 19 o atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT

cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales

Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT

contactus@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales

1. Cefndir

- 1.1. Cyflwynir yr amcangyfrif hwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 yn unol â pharagraff 19 o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Darpariaethau Canlyniadol) 2015. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru archwilio'r amcangyfrif hwn a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol gydag unrhyw addasiadau y maent o'r farn eu bod yn briodol.
- 1.2. Paratoir yr amcangyfrif ar sail adnoddau ac mae'n cynnwys gwariant referniw a chyfalaf a ragwelir gan gynnwys eitemau nad ydynt yn arian parod. Mae hefyd yn cynnwys cysoni â'r gofyniad net am arian parod neu gymorth grant yr wyf yn disgwyl ei dderbyn gan Weinidogion Cymru.
- 1.3. Fy mwriad yw parhau i ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn fy nhrefniadau gwaith ac mae'r amcangyfrif hwn wedi'i lunio gyda hyn mewn golwg. Felly, mae'r amcangyfrif yn dangos bod rhannu swyddogaethau â chyrrff cyhoeddus eraill a gwneud y defnydd gorau o dechnoleg a sicrhau cynaliadwyedd ym mhob agwedd er mwyn cadw costau'n isel a chynhyrchedd yn uchel yn agweddau pwysig ar fy nghyllideb.

2. Rhaglen Waith 2018-19

Yr allbynnau allweddol a gynllunnir ar gyfer 2018-19 yw:

- 2.1. Y Gallu i Greu - Datblygu a darparu rhaglen o waith cydweithredol sy'n tynnu ar wybodaeth gyfunol pobl a sefydliadau ledled Cymru i egluro ac ymchwilio i'r goblygiadau ymarferol, ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, o ddefnyddio'r pum ffordd o weithio i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at bob un o'r nodau llesiant. Bydd hwn yn ddarn sylweddol o waith a fydd yn gosod y sylfeini ar gyfer y ffordd y bydd cyrrff cyhoeddus yn dehongli a gweithredu ar y nodau llesiant.

- 2.2. **Labordai Byw** - Gan ddefnyddio arbenigedd gan ystod o randdeiliaid, datblygu a phrofi dulliau i alluogi cyrff cyhoeddus i 'gerdded trwy' rhyw faes neu fater er mwyn adeiladu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a chymhwyso pum Ffordd o Weithio'r Ddeddf. Byddwn yn parhau â'n gwaith ar gaffael a datgarboneiddio, a byddwn yn datblygu rhaglen tair blynedd ar gyfer Labordai Byw yn seiliedig ar y meysydd blaenoriaeth sy'n dod i'r amlwg.
- 2.3. **Cwmwl o Arloeswyr** - yn cysylltu cyrff cyhoeddus â'i gilydd a gydag arbenigwyr a sefydliadau academaidd trwy ddatblygu sefydliadol, rheoli newid a rhaglenni trawsnewid. Byddwn yn datblygu rhwydwaith o 'arloeswyr' i gysylltu pencampwyr ac arloeswyr cenedlaethau'r dyfodol yn eu maes, fydd wedi'u harfogi ac yn barod i gynghori a chynorthwyo cyrff cyhoeddus mewn perthynas â defnyddio'r pum Ffordd o Weithio i herio busnes fel arfer.
- 2.4. Byddaf yn parhau i weithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, wrth i ni sicrhau bod archwilio yn cael ei ddefnyddio i gefnogi canlyniadau gwell a chasglu gwybodaeth a thystiolaeth ynglŷn â pha mor dda y mae cyrff cyhoeddus yn cwrdd â'u hamcanion llesiant i barato'r ffordd ar gyfer adroddiad cyntaf Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2020.
- 2.5 Yn ogystal â'r cynlluniau ar gyfer gweithio ar y cyd a amlinellwyd uchod, byddaf yn defnyddio fy meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu i weithio gyda'r bobl a'r sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i yrru'r newidiadau sydd eu hangen yn eu blaenau. Byddwn yn datblygu golwg mwy treiddgar ar bob un o'r blaenoriaethau hyn ac yn datblygu astudiaethau achos ynghylch sut y gellir defnyddio'r Ddeddf fel fframwaith ar gyfer newid trawsffurfiol.

3. Anghenion Adnoddau

- 3.1. Mae cyflawni ar draws ehangder fy rôl yn nhermau polisi a swyddogaeth yn heriol iawn ar y gyllideb a ddyrannwyd. Rwyf eisoes wedi gweithredu ffyrdd arloesol o sicrhau adnoddau ychwanegol trwy bartneriaethau ac rwyf wrthi'n

ailwampio fy Swyddfa er mwyn cyfeirio fy adnoddau cyfyngedig yn well a chael y budd mwyaf posibl. Bydd y strwythur newydd hwn yn cael ei gyllido o fewn fy nghyllideb bresennol ac ni fydd unrhyw gostau dileu swyddi na diswyddo yn deillio o'r ailstrwythuro.

- 3.2. Mae cyrff cyhoeddus bellach wedi gosod tua 342 o amcanion ac ar gyfartaledd, rydym yn derbyn pedwar cais am gefnogaeth a chyngor bob wythnos yn ychwanegol at y rhaglenni rhagweithiol yr ydym yn eu cynnal. Gyda'r lefel hon o weithgaredd, bydd yn her sylweddol i gyflawni fy rhwymedigaethau statudol a gyrru'r newid diwylliannol sy'n ofynnol gan y Ddeddf yn ei flaen yn y tymor canolig i'r tymor hwy. Yn ogystal ag ystyried cyfleoedd ariannu yn y dyfodol a'm hagwedd barhaus yng nghyswllt ceisio trefniadau cyllido arloesol trwy weithio mewn partneriaeth, gellid lleddfu hyn pe bai'r Llywodraeth, ynghyd â'r arian a'r adnoddau a ddyrennir i gyrff eraill ar gyfer darparu a gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn darparu gwybodaeth i ddangos sut maent yn cynorthwyo cyrff cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 3.3. Byddaf yn parhau i rannu gofod swyddfa gyda Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg a defnyddio lle sydd ar gael i mi ym Mhrifysgol Bangor ar gyfer fy staff yng Ngogledd Cymru. Byddaf yn parhau i rannu fy swyddogaeth AD gyda'r Comisiynydd Plant, fy swyddogaeth cyflogres gyda'r Ombwdsman a threfniadau archwilio mewnol ar y cyd gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn, y Comisiynydd Plant ac Ombwdsmon Sector Cyhoeddus Cymru.

4. Fy sefyllfa ariannol bresennol a'm Polisi Cronfeydd Wrth Gefn

- 4.1. Dangosodd y cyfrifon blynyddol ar gyfer fy nghyfnod adrodd cyntaf a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 gronfeydd wrth gefn cronedig o £454,000. Y prif resymau dros hyn oedd yr amser a gymerodd i recriwtio staff pan sefydlwyd y swyddfa ac oedi cyn symud i mewn i ofod swyddfa oedd angen ei adnewyddu. Roedd angen sefydlu arferion gwaith cyn cwblhau buddsoddiad pellach mewn offer, dodrefn a thechnoleg swyddfa sy'n cefnogi ffordd o weithio hyblyg, carbon isel.
- 4.2. Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r swm y bydd angen i mi ei gadw wrth gefn o'r naill flwyddyn i'r llall er mwyn ateb galwadau annisgwyl ar adnoddau heb amharu'n ormodol ar y rhaglen waith sydd ar y gweill gen i. O ystyried natur arloesol fy nghylch gorchwyl, yr angen posibl am waith brys heb ei gynllunio a chostau'n gysylltiedig â hynny, rwyf wedi penderfynu cadw cronfeydd wrth gefn o tua £130,000 sydd oddeutu 9% o'm cymorth grant cyfredol ond sy'n swm y gallaf ei gyfiawnhau yn yr hinsawdd ansicr sydd ohoni. Byddaf yn adolygu'r ffigur hwn o dro i dro.
- 4.3 Ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2017-18), mae'r rhagamcanion cyfredol yn dangos y bydd y cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2018 yn gostwng i £280,000. Byddaf yn defnyddio £150,000 o'r cronfeydd wrth gefn i gwblhau darn sylweddol o waith ar ganllawiau i Gyrrff Cyhoeddus ar y Saith Nod. Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu trwy drefniadau partneriaeth â chyrrff cyhoeddus, preifat a thrydydd sector.
- 4.4. Yn y cyfamser, y symiau a ddyfynnir yn y ddogfen hon yw fy amcangyfrif gorau o'm costau ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19.

5. Cyllid Llywodraeth Cymru

5.1. Mae cyllideb Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer 2018-19 yn darparu cyllid o £1.46m ar gyfer gwaith fy swyddfa. Mae fy amcangyfrif yn cyfateb i'r cyfanswm hwn.

6. Cyfrifon

6.1. Mae'n ofynnol i mi baratoi cyfrifon blynyddol i'w harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Roedd fy nghyfrifon cyntaf yn cwmpasu'r cyfnod ers i mi ddechrau yn y swydd hyd at 31 Mawrth 2017 ac fe'u cyhoeddwyd fel rhan o'm Adroddiad Blynyddol ar 1 Awst 2017. Barn Archwilydd Cyffredinol Cymru ar fy natganiadau ariannol oedd eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o'm gweithrediadau a'u bod wedi'u paratoi'n gywir yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru.

7. Materion archwilio a llywodraethu

7.1. Penodais Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i roi sicrwydd imi fel Swyddog Cyfrifyddu ar faterion yn ymwneud ag archwilio, rheolaeth ariannol, rheoli risg a llywodraethu yn 2016. Rwyf hefyd wedi penodi archwilwyr mewnol y bydd eu gwaith yn cael ei oruchwylio gan y pwyllgor hwnnw.

8. Amcangyfrif Blynyddol 2018-19

8.1 Amlinellir Amcangyfrif 2018-19 ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol isod:

Disgrifiad	Amcangyfrif 2018-19 £000
Costau cyflogi	1,083
Adeiladau	87
Costau swyddfa	29
Hyfforddiant a recriwtio	7
Teithio a chynhaliaeth	36
Archwilio mewnol ac allanol	30
Cyfathrebu	22
TG (Refeniw)	39
Costau Prosiectau	250
Wrth Gefn	30
Cyfanswm Gwariant Refeniw	1,613
Llai costau heb fod yn arian parod	(8)
Plws Gwariant cyfalaf (TG)	5
Llai Tanwariant dd/y o'r flwyddyn flaenorol	(150)
Gofyniad arian parod net	1,460

Nodiadau:

Costau cyflogi

Mae'r gost hon yn cwmpasu cost lawn cyflogi neu secondio staff gan gynnwys costau YG a phensiwn y cyflogwr. Mae hefyd yn cwmpasu fy nghostau cyflog fy

hun (fel y'i penderfynir gan Weinidogion Cymru) a chost taliadau i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

[Treuliau adeilad a swyddfa](#)

Mae treuliau adeilad a swyddfa yn cynnwys gwariant ar rent, ardrethi, atgyweiriadau a chynnal a chadw, diogelwch, cyfleustodau, deunydd ysgrifennu ac yswiriant.

[Cost TG \(refeniw a chyfalaf\)](#)

Y costau refeniw parhaus sy'n gysylltiedig â TG yw costau misol ar gyfer gwasanaethau a chostau cymorth ar gyfer galluogi gwasanaeth data diogel i'r holl ddefnyddwyr ar y staff.

Ni fydd llawer o wariant cyfalaf.

[Cyfathrebu](#)

Mae'r costau hyn ar gyfer cynnal a chadw gwefan, cyfieithu a digwyddiadau a gweithdai sy'n ymwneud ag ymgysylltu â rhanddeiliaid.

[Costau Prosiectau](#)

Rhoddir manylion yn Adran 2 'Rhaglen Waith 2018-19' uchod.

[Wrth Gefn](#)

Mae £30,000 o arian wrth gefn cyffredinol ac ar gyfer gwaith heb ei gynllunio wedi'i gynnwys yn yr amcangyfrif. Gallai costau ychwanegol o'r fath fod yn gysylltiedig, er enghraifft, gydag adnoddau staff dros dro ychwanegol a sicrhau cyngor a chymorth ar gyfer digwyddiadau annisgwyl.

[Llif arian nad yw'n arian parod](#)

Mae hyn yn gysylltiedig â'r costau hynny lle mae tâl ar y cyfrif gwariant ond dim taliad arian parod e.e. symudiad ar gredydwy'r a dyledwy'r, yn ogystal â thaliadau dibrisiant ac amorteiddio.

[Gofyniad arian parod net](#)

Dyma'r arian y bydd angen i mi ei dynnu gan Weinidogion Cymru i gwrdd â'm costau disgwyliedig ar gyfer 2018-19. Mae'n cyfateb i'r cyllid a gytunwyd gan Weinidogion Cymru.

Sophie Howe



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Mis Hydref 2017

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT

cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales

Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT

contactus@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales